



Diweddariad ar Faes Carafanau'r Aelodau

Mae'r neges yma wedi'i chylchredeg gan ddefnyddio'r Wefan a chyfryngau Cymdeithasol, yn hytrach na phostio at aelodau unigol, er mwyn diogelu ein Cymdeithas, trwy leihau gwariant diangen ar yr adeg anodd yma.

Mae Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru yn sefydliad a arweinir gan ei haelodau, a'i ethos yw y gall aelodau deimlo'n falch o'r ffaith eu bod yn cefnogi amcanion elusennol y gymdeithas. Caiff y rhain eu cyflawni trwy ddarparu gwobrau, bwrsariau ac ysgoloriaethau, ynghyd â threfnu a chynnal tri digwyddiad y gymdeithas. Yn ogystal ac yn arbennig o bwysig ar hyn o bryd, mae'r Gymdeithas yn hyrwyddo amaethyddiaeth, coedwigaeth, garddwriaeth a chadwraeth ac yn arbennig gynnyrch Cymreig. Fel y dywedwyd lawer gwaith ac nid yn lleiaf yn hanes dogfenedig y Gymdeithas 'Cymryd Stoc' - Mae'r Gymdeithas 'yn fwy na sioe'.

Mae aelodau'n gallu ymgysylltu â'r Gymdeithas a dylanwadu arni drwy ein strwythurau Ymgynghorol Sirol a Siroedd Nawdd, a edmygir gan lawer, neu drwy deimlo'n rhan o sefydliad mor wych yn gyffredinol drwy ond dangos cefnogaeth. Mae llawer mwy i aelodaeth unrhyw sefydliad na mynediad at ddigwyddiadau, neu gyfleusterau eraill.

Ar adegau fel hyn cefnogaeth ein haelodau ar draws Cymru ac ymhellach i ffwrdd sy'n sicrhau dyfodol y Gymdeithas. Rydym wedi goroesi dyddiau main o'r blaen, yn fwyaf diweddar argyfwng clwy'r traed a'r genau yn 2001. Cefnogaeth barhaol yr aelodau a sicrhodd ein bod wedi gallu dod yn ôl yn dalog, cadw staff, cyfleusterau'r safle a pharhau gwaith gwych y Gymdeithas a chynnal ein digwyddiadau, sy'n annwyl gan bawb. Yn y dyddiau digynsail hyn bydd y dyfodol a wynebwn ar ôl gorfod cau ein drysau ar ein gwyl a'n sioe haf ein hunain ac i'r rheini sy'n defnyddio ein safle ar gyfer llawer mwy o ddigwyddiadau yn un ansicr.

Mae cefnogaeth ein haelodau yn rhan dyngedfennol o lwyddiant ein Cymdeithas ac rydym yn arbennig o ddiolchgar am y gefnogaeth yma yn dilyn y penderfyniad gresynus i ganslo Sioe Frenhinol Cymru 2020.

Er mwyn caniatáu i aelodau ddangos eu cefnogaeth rydym wedi cytuno y bydd unrhyw aelod y mae safle carafan wedi'i neilltuo ar ei gyfer yn barod ym Meysydd Carafanau'r Aelodau yn sioe eleni, yn gallu sicrhau safle yn Sioe 2021 (am brisiau eleni) drwy adael eu harchebiad a'r ffioedd cysylltiedig gyda'r Gymdeithas. (Mae arian wedi'i dynnu o'ch cyfrif yn yr wythnos neu ddwy ddiwethaf, yn gadarnhad o'ch archebiad.) Yn yr achos hwn does dim angen i aelodau gymryd unrhyw gamau.

Er nad oes dim rheidrwydd i wneud hyn, rydym yn teimlo y bydd llawer o aelodau'n gwerthfawrogi'r cyfle hwn i gefnogi ein cynllun parhad busnes tra byddant yn sicrhau eu harchebiad ar gyfer y flwyddyn nesaf.





Nid yw'r aelodau hynny nad yw eu siec wedi'i bancio wedi cael safle wedi'i gadw iddynt. Byddwn yn dychwelyd eich sieciau yn y ffordd arferol. Byddwch yn amyneddgar gyda staff yn ystod y cyfnod hwn gan fod galw heb ei debyg o'r blaen.

Mae'ch cefnogaeth yn bwysig inni ac yn hanfodol i ddyfodol tymor hir y Gymdeithas ac mae ein meddyliau a'n dymuniadau gorau gyda chi wrth inni i gyd wynebu'r senario digynsail yma.



Noddwr / Patron: Her Majesty The Queen
Prif Weithredwr / Chief Executive: Steve Hughson
Cadeirydd y Cyngor / Chairman of Council: David Lewis DL FRICS FLAA FRAgS
Company Registration No.: 892851 Wales. Charity Registration No.: 251232 VAT No.: 134 6903 69